Rhif: LIC52221

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cau'r cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau a chynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat yng Nghymru

Rhagfyr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

© Hawlfraint y Goron 52221 ISBN Digidol

## Y Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras a Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais ynghyd â chopïau mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Polisi Ffermio'r Dyfodol
Amaethyddiaeth – Yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod
LD1 5LG

E-bost: FutureFarmingConsultation@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Cynnwys

Cynnwys ... 3
Cyflwyniad ... 4
Y cefndir a sail resymegol y polisi ... 4
Y broses ymgynghori ... 5
Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ... 5
Cwestiynau am y cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau ... 5
Cwestiynau am y cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r cynllun Cymorth Storio Preifat ... 7
Y camau nesaf ... 8

## Cyflwyniad

Ceisiodd Llywodraeth Cymru farn ar y cynnig i gau'r Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau a Chynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat yng Nghymru ar ddiwedd 2025.

## Y cefndir a sail resymegol y polisi

Ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn 2020, mae deddfwriaeth yr UE a gymathwyd wedi parhau i fod ar waith, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynlluniau cyllido amaethyddol. Ymhlith y darnau hynny o ddeddfwriaeth mae'r cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau, y Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r Cynllun Cymorth Storio Preifat.

Cafodd y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau ei gyflwyno yn 1996, ac roedd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth llywodraeth i Sefydliadau Cynhyrchwyr er mwyn iddynt gydweithio'n fwy effeithiol a gwella ansawdd eu cynhyrchion. Ers iddo ddechrau, nid oes neb yng Nghymru wedi gwneud cais. Mae'r Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus yn fecanwaith cymorth i'r farchnad wedi'i lunio i sefydlogi'r farchnad mewn cynhyrchion amaethyddol penodol pan fydd prisiau'n gollwng yn aruthrol, neu pan fydd gormod o'r cynhyrchion hyn ar y farchnad. Drwy'r cynllun hwn mae'r llywodraeth yn prynu ac yn storio mathau penodol o gynhyrchion amaethyddol—megis grawnfwydydd, menyn, powdr llaeth sgim, a chig eidion—am bris ymyrryd sefydlog. Mae'r Cynllun Cymorth Storio Preifat yn debyg, lle mae'r llywodraeth yn talu swm sefydlog i gynhyrchwyr i dalu am gost storio cynhyrchion am gyfnod penodedig, fel y gallant gael eu gwerthu pan fydd prisiau wedi sefydlogi. Yng Nghymru nid yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu cymhwyso ers 2000.

Nid yw'r tri chynllun hyn yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y diffyg defnydd ohonynt a chostau gweinyddol uchel. Cafodd pwerau i ymyrryd â'r farchnad eu diweddaru yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac maent yn caniatáu i Weinidogion Cymru gefnogi ffermwyr drwy gynnig taliadau uniongyrchol o dan amodau marchnad eithriadol, sy'n ffordd fwy effeithiol o lawer o ymyrryd er mwyn helpu busnesau fferm pan fydd yn argyfwng arnynt.

Ar ben hynny, mae'r ffaith bod trefniadau gweithredol y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau a'r Cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat wedi newid, yn dilyn newidiadau wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth yng Ngwledydd eraill y DU, yn golygu, er mwyn parhau i weithredu'r cynlluniau hyn, y byddai angen i Lywodraeth Cymru lunio mecanwaith gweithredu newydd. Byddai rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn rhoi straen weinyddol a straen ariannol fawr ar Lywodraeth Cymru.

## Y broses ymgynghori

Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos, a ddechreuodd ar 2 Mehefin 2025 ac a ddaeth i ben ar 25 Awst 2025. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori  Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn cael cyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau yn Gymraeg a Saesneg, drwy'r post, drwy e-bost neu gan ddefnyddio ffurflen ymateb ar-lein. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Nod yr adroddiad hwn yw ceisio cyflwyno'r holl safbwyntiau a themâu a gafwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dim ond i Gymru yr oedd yr ymgynghoriad yn gymwys.

## Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i’r rhai a aeth ati i fynegi eu barn ac ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyflwyno'r cynigion..

Cafwyd cyfanswm o dri ymateb. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion ac nid yw'n cyfeirio at bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Mae'r holl ymatebwyr yn byw yng Nghymru a chyflwynwyd yr holl ymatebion yn Saesneg.

### Cwestiynau am y cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau

1. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn?

Cytunodd 66.67% o bobl yn gryf â'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gan nodi y byddai 'tyfwyr garddwriaeth yn cael eu cefnogi orau mewn ffyrdd eraill'. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod angen cymorth ychwanegol ar dyfwyr er mwyn i'w busnesau fod yn hyfyw.

2. Ydych chi erioed wedi ystyried gwneud cais o dan y cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau yng Nghymru?

Atebodd 33.33% o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, gan nodi bod proses ymgeisio'r cynllun yn 'rhy gymhleth'. Atebodd 66.67% 'na' gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi busnesau garddwriaethol gyda chynlluniau grant amrywiol eraill.

3. Ydych chi'n disgwyl i'r cynigion hyn effeithio ar eich busnes mewn unrhyw ffordd?

Cytunodd ymatebwyr na fydd y cynigion yn effeithio ar fusnesau garddwriaethol mewn unrhyw ffordd sylweddol.

4. Ydych chi'n disgwyl i'r cynigion hyn effeithio ar eich cymuned?

Dywedodd yr ymatebwyr na fydd y cynigion yn effeithio ar eu cymunedau mewn unrhyw ffordd.

5. Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gynnig rhywbeth arall yn lle'r cynlluniau hyn?

Roedd 33.33% yn cytuno'n gryf a 33.33% yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gynnig dewis arall i'r cynllun hwn, gan nodi 'byddai cymorth pellach i arddwriaeth yn helpu'r sector i dyfu'. Roedd 33.33% yn anghytuno'n gryf.

6. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Dywedodd yr ymatebwyr na fyddai'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

7. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid ychwanegu 'nodiadau dwyieithog' at bopeth sy'n cael ei blannu.

8. A oes unrhyw faterion cysylltiedig nad yw'r ymgynghoriad hwn wedi mynd i'r afael â nhw?

Dywedodd un ymatebydd y dylid annog cymunedau i gymryd rhan drwy 'dyfu coed ffrwythau a llwyni', tra awgrymodd ymatebydd y dylid lleihau'r cymorth y mae'r llywodraeth yn ei gynnig.

**Cwestiynau am y cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus a'r cynllun Cymorth Storio Preifat**

1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn?

Cytunodd 66.67% o'r ymatebwyr yn gryf â'r newidiadau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn, tra nododd un ymatebydd nad oeddent yn gwybod beth oedd y cynlluniau.

2. Ydych chi erioed wedi ystyried gwneud cais o dan y Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus neu'r Cynllun Storio Preifat yng Nghymru?

Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr wedi gwneud cais am y cynllun neu ni wyddent beth oedd y cynlluniau.

3. Ydych chi'n disgwyl i'r cynigion hyn effeithio ar eich busnes mewn unrhyw ffordd?

Roedd gan ymatebwyr safbwyntiau amrywiol ar y cwestiwn hwn gyda 33.33% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf, 33.33% o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 33.33% o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf.

4. Ydych chi'n disgwyl i'r cynigion hyn effeithio ar eich cymuned?

Unwaith eto, roedd gan ymatebwyr safbwyntiau amrywiol ar y cwestiwn hwn gyda 33.33% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf, 33.33% o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 33.33% o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf.

5. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Dywedodd yr ymatebwyr na fyddai'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

6. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd yr ymatebwyr na fyddai'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

7. A oes unrhyw faterion cysylltiedig nad yw'r ymgynghoriad hwn wedi mynd i'r afael â nhw?

Nid oedd unrhyw faterion pellach wedi'u nodi gan ymatebwyr.

## Y camau nesaf

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau a ddaeth i law, ac rydym bellach yn cynllunio sut i fynd ati i gau'r tri chynllun a gafodd eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn.